# YSGOL BRO PRESELI



LLAWLYFR DEWISIADAU TGAU

GCSE OPTIONS HANDBOOK

2024 - 2026

# CYNNWYS / CONTENT


**Neges y Pennaeth / Headteacher's Message**

Y Cwricwlwm / The Curriculum
Dysgu ar Draws y Cwricwlwm / Learning across the Curriculum
Cwricwlwm Blwyddyn 10 / Year 10 Curriculum
Y Fagloriaeth Gymreig / The Welsh Baccalaureate
Arholiadau Allanol / External Examinations
Pa Bynciau i Ddewis? / Which Subjects will I choose?

**Manylion cyrsiau TGAU / GCSE Subject outline**

**Pynciau Craidd / Core Subjects**
Cymraeg / Welsh
Saesneg / English
Llenyddiaeth Cymraeg / Welsh Literature
Llenyddiaeth Saesneg / Englsh Literature
Mathemateg a Rhifedd / Mathematics and Numeracy
Gwyddoniaeth / Science

**Pynciau Dewis / Option Subjects**

Addysg Gorfforol / Physical Education
Addysg Grefyddol / Religious Education
Amaethyddiaeth / Agriculture
Bwyd a Maeth (Coginio) / Food and Nutrition (Cookery)
Busnes / Business
Celf a Dylunio /Art and Design
Cerdd / Music
Daearyddiaeth / Geography
Iechyd a Gofal / Health and Social Care
Drama / Drama
Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology
Ffrangeg - Sbaeneg / French - Spanish
Hanes / History
Technoleg Digidol / Digital Technology

# NEGES Y PENNAETH

**Annwyl Ddisgybl Blwyddyn 9 a'u Rhieni/ Gofalwyr,**

Bwriad y llyfryn hwn yw darparu gwybodaeth i chi ynglŷn â'r meysydd llafur yn y gwahanol bynciau ym mlwyddyn 10.

Mae cwricwlwm blwyddyn deg wedi ei rannu yn ddwy ran - sef pynciau craidd gorfodol a phynciau dewisol.

Eleni mae tri grŵp dewis ac mae'n bwysig dros ben eich bod yn gwneud dewisiadau doeth. Er mwyn gwneud dewisiadau doeth rhaid:


- Gofyn am gyngor oddi wrth y Arweinwyr Pwnc, Athrawon Pwnc, Athrawon Dosbarth, Penaethiaid Cynnydd a Lles, y Dirprwy Bennaeth a'r Pennaeth.
- Sicrhau eich bod yn gwybod beth yw cynnwys meysydd llafur y gwahanol bynciau.
- Gofyn am gyngor oddi wrth yr athro gyrfaoedd a'r swyddog gyrfaoedd rhag ofn bod angen astudio rhyw bwnc arbennig ar gyfer gyrfa benodol neu gwrs penodol mewn Colegau Addysg Bellach/Uwch.

Pa bynnag bynciau fyddwch yn eu dewis ni chewch lwyddiant heb waith caled. Rhaid gweithio yn gyson drwy gydol y cwrs a pheidio â gadael gwaith adolygu tan y funud olaf.

Mae gwaith cwrs / asesiadau o dan reolaeth yn parhau i fodoli mewn rhai pynciau. Mae'n bwysig cwblhau'r gwaith hyn i'r safon uchaf posib. Mae hyn yn golygu drafftio ac ail-ddrafftio gwaith cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol. Bydd angen cryn dipyn o hunanddisgyblaeth arnoch er mwyn cwblhau'r asesiadau erbyn y dyddiadau cau.

Mae ennill canlyniadau da mewn arholiadau allanol yn bwysicach nag erioed oherwydd bod prinder swyddi ac felly mae cystadleuaeth am bob swydd. Hefyd mae mwy o gystadleuaeth am lefydd mewn Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach ac felly mae graddau da yn hanfodol bwysig er mwyn cael eich derbyn.

Gofynnaf i chi wneud eich gorau ym mhob pwnc, hynny yw gweithio hyd eithaf eich gallu. Gydag ymdrech fe ddaw llwyddiant.



Yn ddiffuant,

Mrs Rh Morris, Pennaeth

# HEADTEACHER'S MESSAGE

**Dear Year 9 Pupil and Parents/ Carers,**

The purpose of this booklet is to provide you with information regarding the syllabi in the various subjects in year 10.

The curriculum in Year 10 is divided into two parts - compulsory core subjects and optional subjects.

This year there are three option groups and it is very important that you make wise choices. You must:

- Ask for advice from Subject Leaders, Subject Teachers, Form Teachers, Heads of Progress and Wellbeing, the Deputy Headteacher and the Headteacher.
- Ensure that you know the nature of the work in the various subjects.
- Ask for advice from the careers teacher and the careers officer since it might be necessary to study a particular subject in order to follow a particular career or a particular course at a University or College of Further/Higher Education.

Whatever subjects you choose, success will not be achieved without hard work. You must work diligently throughout the course and not leave your revision until the last minute.


Assessments/coursework are still important in some subjects. It is vital that they are completed to the highest standard possible. This may involve drafting and re-drafting work before producing the final version. You will require a great deal of self-discipline in order to complete the tasks by the closing dates.

Achieving good results in examinations is more important than ever since there is a shortage of job opportunities and therefore a great deal of competition for each vacancy. There is also more competition for places at Colleges of Further and Higher Education, which means that good grades are essential in order to be accepted.

I ask you to do your best in all subjects, that is, to work to the best of your ability.
A determined effort on your behalf will bring success.

Yours sincerely,

Mrs Rh Morris, Pennaeth



# Y CWRICWLWM

Enw'r cwrs a ddilynir gan eich plentyn yn yr ysgol yw'r Cwricwlwm. Rhaid i'r cwricwlwm fod yn eang, yn gytbwys, yn berthnasol ac yn wahaniaethol. Bydd Cwricwlwm eang yn rhoi ystod eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau i'r disgybl.

Dylid neilltuo amser digonol i bob rhan o'r cwricwlwm er mwyn sicrhau cydbwysedd. Bydd y deunydd yn berthnasol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Dylai gael ei ddysgu yn y fath fodd fel y bydd yn cysylltu â phrofiadau'r disgyblion ac yn hybu eu datblygiad yn ogystal â'u paratoi ar gyfer bywyd oedolion.

Bydd y cwricwlwm yn wahaniaethol ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgu disgyblion mewn ffyrdd sy'n peri bod y cwricwlwm ar gael i bob disgybl.

Mae'n bwysig hefyd bod dilyniant yn y rhaglenni astudio a gyflwynir i'r disgyblion. Mae'r Cwricwlwm yn cwmpasu nifer o bynciau ynghyd â materion trawsgwricwlaidd.

Rhennir y pynciau yn Bynciau **Craidd** a Phynciau **Dewis**.

*Pynciau Craidd*

Cymraeg
Saesneg
Mathemateg a Rhifedd
Gwyddoniaeth
Tystysgrif Her Sgiliau

*Pynciau Sylfaen*

Crefydd, Athroniaeth, Moeseg
Tystysgrif Her Sgiliau
Addysg Gorfforol

*Pynciau Dewis*

Addysg Gorfforol
Amaethyddiaeth
Bwyd a Maeth (Coginio)
Busnes
Celf a Dylunio
Cerdd
Daearyddiaeth
Iechyd a Gofal
Drama
Dylunio a Thechnoleg
Ffrangeg - Sbaeneg
Hanes
Technoleg Digidol

**Addysg Grefyddol**

Rhaid i'r Cwricwlwm sylfaenol gynnwys darpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol i'r holl ddisgyblion drwy'r ysgol gyfan. Dylai'r addysg hon adlewyrchu traddodiadau Cristnogol y wlad hon ond dylai hefyd ystyried dysgeidiaeth crefyddau eraill.

Rhaid i'r weithred o addoli fod yn rhan o'r diwrnod ysgol. Mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plentyn o wasanaeth crefyddol ac addysg grefyddol. Gall rhieni sy'n dymuno eithrio eu plant o wersi Addysg Grefyddol neu o wasanaethau'r bore wneud cais ysgrifenedig am hynny.

# THE CURRICULUM

The course of study your child follows in school is known as the Curriculum. The curriculum has to be broad, balanced, relevant and differentiated. A curriculum has breadth if it introduces a wide range of experience, knowledge and skills to the pupils.

It is necessary to allocate sufficient time to each area of the curriculum in order to ensure balance. The subject matter will be relevant in each area of the curriculum and should be taught in such a way as to link with the pupils' own experiences and to promote their development as well as to prepare them for adult life.

The curriculum is differentiated so that it provides for the learning needs of pupils in a way that ensures that the curriculum is accessible to all. What is taught needs to be matched to the ability and aptitudes of the pupils.

The learning programmes must show progression. The curriculum consists of a number of subjects together with cross-curricular matters.

The subjects are further classified into **Core** and **Optional subjects**.

*Core subjects*

Welsh
English
Mathematics and Numeracy
Science

*Optional subjects*

| | |
|---|---|
| Physical Education | Health and Social Care |
| Agriculture | Drama |
| Food and Nutrition (Cookery) | French - Spanish |
| Business | History |
| Art and Design | Digital Technology |
| Music | Design and Technology |
| Geography | |

*Foundation subjects*

Physical Education
Religion, Philosophy and Ethics
Welsh Baccalaureate

**Religious Education**

The basic curriculum must include a provision for Religious Education for all pupils throughout the school. The Religious Education curriculum must reflect the Christian tradition of this country but should also take into account the teaching of other worldwide religions.

An act of worship must be part of the school day. Parents have the right to exclude their child from religious worship and religious education. Parents who wish to withdraw their children from Religious Education lessons or from the morning assembly must make such a request in writing.


# DYSGU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Bydd y themâu canlynol yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng rhaglenni dysgu'r pynciau unigol, trwy gyfrwng gweithgareddau ychwanegol penodol a thrwy gyfrwng cyrsiau.

- Gyrfaoedd a Byd Gwaith
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Bydd cyfle gan pob un disgybl i ddatblygu sgiliau a gwerthoedd canlynol ar draws y cwricwlwm.

**Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn datblygu i fod yn...**




## Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

LLYTHRENNEDD Trawsgwricwlaidd

RHIFEDD Trawsgwricwlaidd

CYMHWYSEDD DIGIDOL Trawsgwricwlaidd

## Sgiliau Ehangach

- Meddwl yn feirniadol a datrys problem
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Effeitholrwydd personol
- Sgiliau Astudio / Adolygu
- Gweithio gydag eraill.


# LEARNING ACROSS THE CURRICULUM

The following themes will be introduced through the teaching programmes of individual subjects, through specific activities and through programmes including:


-Careers and the World of Work
-Personal and Social Education

Each pupil will have the opportunity to develop the following skills and values across the curriculum.

**All children and young people will be...**




### Cross-curricular Skills




### Wider skills

- Thinking critically and problem solving
- Planning and organisation
- Creativity and innovation
- Personal effectiveness
- Study and revision skills
- Working with others

# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm ar gael i bob disgybl bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn unol â gofynion deddf newydd ADY 2021, bydd yr ysgol yn paratoi cynlluniau datblygu unigol ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu hystried ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yr ysgol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda'r disgyblion a'u rieni er mwyn sicrhau'r darpariaeth a chefnogaeth anghenreidiol.

# GWEITHGAREDDAU BYD GWAITH/PROFIAD GWAITH - MR O THOMAS

Bydd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Byd Gwaith yn yr ysgol. Bydd y profiadau hyn yn helpu'r disgyblion i ddeall gofynion cyflogwyr ac yn eu paratoi ar gyfer y newidiadau fydd yn eu hwynebu wrth iddynt symud o fyd ysgol i fyd gwaith.

# ADDITIONAL LEARNING NEEDS

In order to ensure that the curriculum is accessible to all pupils, the school will cater for pupils with additional learning needs. In accordance with the requirements of the new ALN Act 2021, the school will prepare individual development plans for pupils who are affected by Additional Learning Needs. The school will hold regular meetings with pupils and their parents in order to ensure the necessary provision and support.

# CAREERS AND THE WORLD OF WORK - MR O THOMAS

All year Key Stage 4 pupils will follow a series of World of Work activities organised at the school. These experiences will be of value to the pupils when making decisions regarding their future careers. This will also help pupils to understand the requirements and expectations of future employers and will assist them in making the transition from school to the adult world of work.

# CWRICWLWM BLWYDDYN 10

Mae'r cwricwlwm gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnwys Cymraeg, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg ynghyd ag Addysg Gorfforol ac Astudiaethau Crefyddol.

| Pynciau craidd (Gorfodol) | Oriau dysgu |
|---|---|
| Cymraeg | 7 awr |
| Saesneg | 7 awr |
| Mathemateg / Rhifedd | 7 awr |
| Gwyddoniaeth Dwbl / Triphlyg | 8 awr / 12 awr |
| Bagloriaeth Cymru | 4 awr |
| **Pynciau sylfaen (Gorfodol)** | |
| Addysg Gorfforol | 2 awr |
| Addysg Grefyddol | 1 awr |

**Pynciau Dewisol**

Bydd tri grŵp dewis.  Mae'r grwpiau dewis wedi eu cynllunio er mwyn galluogi'r disgybl i ddilyn cwricwlwm sy'n eang a chytbwys.

Darperir amrywiaeth o bynciau academaidd a galwedigaethol.  Neilltuir 5 awr y bythefnos ar gyfer pob grŵp dewis.

# YEAR 10 CURRICULUM

The mandatory curriculum at Key Stage 4 consists of Welsh, Science, Mathematics and English as well as Physical Education and Religious Studies.

| Core subjects (Compulsory) | Learning hours |
|---|---|
| Welsh | 7 hours |
| English | 7 hours |
| Mathematics / Numeracy | 7 hours |
| Science Double / Triple | 8 / 12 hours |
| Welsh Baccalaureat | 4 hours |
| **Compulsory Foundation Subjects** | |
| Physical Education | 2 hours |
| Religious Education | 1 hour |

**The Optional Subjects**

There will be three option groups. These groups have been designed in order to enable the pupils to study a broad and balanced curriculum. A wide range of academic and vocational subjects are available.


Each option group will be allocated 5 hours.

# BAGLORIAETH CYMRU

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yw darparu cyfrwng i rai 14-16 oed atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd.

Bydd y cymhwyster yn helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr ôl-16 a darpar gyflogwyr. Mae pwyslais Bagloriaeth Cymru ar ddysgu cymhwysol h.y. caffael a defnyddio amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy.
Bydd yr ysgol yn cynnig profiad dysgu sy'n berthnasol i anghenion a gofynion y gweithle yn meithrin hyder, cymhelliant a blaengaredd dysgwyr, gan eu paratoi i ymuno â'r byd gwaith, i lwyddo yn y byd hwnnw ac i ddatblygu ynddo.

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â Chymwysterau Ategol. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.




Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- **Project Unigol**
- **Her Menter a Chyflogadwyedd**
- **Her Dinasyddiaeth Fyd-eang**
- **Her y Gymuned**

Bydd canlyniadau cyfunol y pedair cydran yn penderfynu p'un a gaiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei dyfarnu ar lefel Genedlaethol neu Sylfaen. Bydd ffocws y Dystysgrif Her Sgiliau ar y sgiliau hanfodol a'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen ar bobl ifanc yn eu bywydau yn y dyfodol a chaiff y sgiliau hyn eu meithrin a'u hasesu drwy Broject Unigol a thair Her. Cynlluniwyd y Dystysgrif Her Sgiliau i gynnwys dysgu ac asesu a fydd yn ennyn brwdfrydedd dysgwyr, yn ymgysylltu â hwy ac yn eu cymell yn yr ystafell ddosbarth, y gweithle a'r gymuned ehangach. Bydd gofyn i'r disgyblion ystyried sut y gallant wrth ddefnyddio'r dysg effeithio ar unigolion, cyflogwyr, y gymdeithas a'r amgylchedd. Lluniwyd y cymhwyster yn seiliedig ar y cysyniad o ddull dysgu trwy 'gynllunio, gwneud ac adolygu' lle caiff y dysgwyr eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu lle byddant yn cynllunio gweithgareddau, yn ymgymryd â gweithgareddau, yn adolygu deilliannau a'r hyn a ddysgir.


Mae'r Cymwysterau Ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd. Mae angen tri chymhwyster TGAU arall hefyd, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth. Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, rhaid ennill gradd A*-C ym mhob un o'r pum Cymhwyster Ategol.  Yn yr un modd, er mwyn bodloni Bagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid ennill gradd A*-G yn y Cymwysterau Ategol.

Nod Bagloriaeth Cymru yw galluogi dysgwyr i feithrin a dangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd a hyfedredd o ran y sgiliau hynny. Dyma'r sgiliau y mae cyflogwyr ac addysgwyr cam nesaf yn eu gwerthfawrogi ac sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd.

# THE WELSH BACCALAUREATE

The central focus of the Welsh Baccalaureate at Key Stage 4 is to provide a vehicle for 14-16 year olds to consolidate and develop essential and employability skills. The qualification will help pupils to prepare for their future by developing skills, attributes and behaviours valued by post-16 educators and potential employers. The emphasis in the Welsh Baccalaureate is on applied learning i.e. acquiring and applying a range of transferable skills. The School will offer a learning experience relevant to the needs and demands of the workplace that will develop pupils' confidence, drive and initiative, preparing them to enter, succeed and progress in the world of work.

The Welsh Baccalaureate is based on a Skills Challenge Certificate alongside Supporting Qualifications. The requirements of both the Skills Challenge Certificate and Supporting Qualifications must be met in order to achieve the overarching Welsh Baccalaureate.




The Skills Challenge Certificate consists of four components which are followed by all pupils:

- **Individual Project**
- **Enterprise and Employability Challenge**
- **Global Citizenship Challenge**
- **Community Challenge**

The combined outcomes of the four components will determine whether the Skills Challenge Certificate is awarded at National or Foundation level. The Skills Challenge Certificate has been designed to include learning and assessment which will enthuse, engage and motivate pupils in the classroom, the workplace and the wider community. Pupils will be required to consider how the application of their learning may impact on individuals, employers, society and the environment. The qualification has been devised around the concept of a 'plan, do, and review' approach to learning where pupils are introduced to a context for learning, plan activities, carry out activities, review outcomes and learning.

The Supporting Qualifications include two mandatory GCSEs of English Language or Welsh Language together with Mathematics-Numeracy. A further three GCSEs are also required, of which two may be of equivalent qualifications. To meet the National Welsh Baccalaureate requirements all five of the Supporting Qualifications must be achieved at grades A*-C. Similarly, for the Foundation Welsh Baccalaureate the Supporting Qualifications must be achieved at grades A*-G.

The Welsh Baccalaureate aims to enable pupils to develop and demonstrate an understanding of and proficiency in essential and employability skills. These are the skills that employers and next stage educators value and which pupils need for learning, work and life.

# ARHOLIADAU ALLANOL

### TGAU

**T**ystysgrif **G**yffredinol **A**ddysg **U**wchradd. Yr arholiad hon fydd y brif ffordd o asesu Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Bydd cynnwys y meysydd llafur felly yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cyflwynir graddau yn ôl wyth gris – Gradd A* i G.

### Papurau Arholiad Haenedig

Er bod TGAU yn arholiad sengl sy'n cwmpasu'r holl ystod gallu, mae papurau haenog ar gael mewn rhai pynciau. Mae graddau arbennig wedyn yn gyfyngedig i'r haenau a'r haen uchaf yn galluogi'r disgyblion i gyrraedd A* - C gan amlaf. Mae'r penderfyniad ynglŷn â pha haen i osod disgybl arno yn un bwysig a bydd cyfle i rieni drafod y mater hwn gyda'r athro pwnc neu'r pennaeth adran yn ystod Nosweithiau Rhieni.

### Gwaith Cwrs/Asesiad Dan Reolaeth

Mewn nifer o bynciau mae angen i ddisgyblion gwblhau gwaith cwrs/asesiadau dan reolaeth fel rhan o'i hasesiad terfynol.Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r gyfran o farciau sydd yn cael ei ddyfarnu i waith cwrs/asesiad dan reolaeth wedi ei gynnwys dan y pwnc penodol. Mae'n bwysig fod disgyblion yn ennill cymaint o farciau â phosibl am yr asesiadau yma ac felly bydd angen sylw manwl a chynllunio gofalus.

# EXTERNAL EXAMINATIONS

### What is GCSE?

The General Certificate of Secondary Education - the GCSE has been confirmed as the chief means of assessing the National Curriculum at Key Stage 4. The requirements of the National Curriculum therefore determine much of the content of the new GCSE syllabuses. The GCSE has a single scale of grades from A* to G.

### Tiered Exam Papers

Although the GCSE is a single examination system covering the whole ability range, in some subjects there are different tiers of papers. Each tier has a restricted number of grades with the higher tier for candidates likely to obtain A* - C. The choice of tier is an important one and parents will be able to discuss this with the subject teacher or Head of Department during Parents Evenings.

### Controlled Assessments/Coursework

In many subjects, pupils are required to complete controlled assessments/coursework as part of the final assessment. Information regarding the amount of marks carried by these assessments is given under the subject headings. It is important that pupils gain as many marks as possible from their controlled assessments and it will therefore need careful attention and planning.

# PA BYNCIAU I DDEWIS?

Wrth benderfynu pa bynciau i ddewis bydd rhaid i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

- **Pa bynciau rydych chi'n hoffi?**
- **Pa bynciau rydych chi orau ynddynt?**
- **Pa bynciau fydd angen arnoch chi yn eich gyrfa yn y dyfodol?**

**Pwy yw'r bobl all eich helpu chi?**

| | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mrs Rh Morris |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs C Morgan-Davies |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs C Thomas |
| **Pennaeth Cynorthwyol** | Mrs S Booth-Coates |
| **Pennaeth Cynorthwyol** | Mr O Thomas |
| **Pennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 9** | Mr M Lloyd |
| **Pennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 10** | Mrs L Hubbard |
| **Pennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 11** | Mrs L Hubbard |
| **Swyddog Gyrfaoedd** | Mrs G Jones |
| **Bagloriaeth Cymru** | Mrs Rh Owens |
| **Athrawon Dosbarth** | |
| **Arweinwyr Pwnc** | |
| **Athrawon Pwnc** | |

**Pwy yw'r Penaethiaid Adrannau?**

| | |
|---|---|
| **Cymraeg / Welsh** | Mrs Rh Davies |
| **Saesneg / English** | Miss R Tebbutt |
| **Mathemateg / Mathematics** | Mrs A Evans |
| **Gwyddoniaeth / Science** | Mr D Richmond |
| **Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology** | Mr W Mason |
| **Daearyddiaeth / Geography** | Miss R Williams |
| **Hanes / History** | Mrs A Jones |
| **Astudiaethau Crefyddol / Religious Studies** | Mrs A Jones |
| **Celf a Dylunio / Art and Design** | Mrs T Read |
| **Ffrangeg / French + Sbaeneg / Spanish** | Mrs C Lewis |
| **Sbaeneg / Spanish** | Mrs G Connolly |
| **Cerddoriaeth / Music** | **Mrs E Ennis** |
| **Drama** | **Mrs S Quick** |
| **Technoleg Digidol / Digital Technology** | **Mrs H Evans** |
| **Busnes / Business** | **Miss M Thomas** |
| **Addysg Gorfforol / Physical Education** | **Mrs E Davies** |
| **Bwyd a Maeth / Food and Nutrition** | **Mrs J Rees James** |
| **Iechyd a Gofal / Health and Social** | **Miss S Rotie** |
| **Adeiladwaith / Construction** | **Coleg Ceredigion** |
| **Amaethyddiaeth / Agriculture** | **Miss B Williams** |

# WHICH SUBJECTS WILL I CHOOSE?

As you decide which subjects to choose you should consider the following questions:

- **Which subjects do you like?**
- **Which subjects are you good at?**
- **Which subjects will you need in your future career?**

**Who are the people who can help you?**

| | |
|---|---|
| **Headteacher** | Mrs Rh Morris |
| **Deputy Headteacher** | Mrs C Morgan-Davies |
| **Deputy Headteacher** | Mrs C Thomas |
| **Assistant Headteacher** | Mrs S Booth-Coates |
| **Assistant Headteacher** | Mr O Thomas |
| **Head of Progress and Wellbeing Year 9** | Mr M Lloyd |
| **Head of Progress and Wellbeing Year 10** | Mrs L Hubbard |
| **Head of Progress and Wellbeing Year 11** | Mrs L Hubbard |
| **Careers Advisor** | Mrs G Jones |
| **Welsh Baccalaureate** | Mrs Rh Owens |
| **Form Tutors** | |
| **Subject Leaders** | |
| **Subject Teachers** | |

**Who are the Heads of Department?**

| | |
|---|---|
| **Cymraeg / Welsh** | Mrs Rh Davies |
| **Saesneg / English** | Miss R Tebbutt |
| **Mathemateg / Mathematics** | Mrs A Evans |
| **Gwyddoniaeth / Science** | Mr D Richmond |
| **Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology** | Mr W Mason |
| **Daearyddiaeth / Geography** | Miss R Williams |
| **Hanes / History** | Mrs A Jones |
| **Astudiaethau Crefyddol / Religious Studies** | Mrs A Jones |
| **Celf a Dylunio / Art and Design** | Mrs T Read |
| **Ffrangeg / French + Sbaeneg / Spanish** | Mrs C Lewis |
| **Sbaeneg / Spanish** | Mrs G Connolly |
| **Cerddoriaeth / Music** | **Mrs E Ennis** |
| **Drama** | **Mrs S Quick** |
| **Technoleg Digidol / Digital Technology** | **Mrs H Evans** |
| **Busnes / Business** | **Miss M Thomas** |
| **Addysg Gorfforol / Physical Education** | **Mrs E Davies** |
| **Bwyd a Maeth / Food and Nutrition** | **Mrs J Rees James** |
| **Iechyd a Gofal / Health and Social** | **Miss S Rotie** |
| **Adeiladwaith / Construction** | **Coleg Ceredigion** |
| **Amaethyddiaeth / Agriculture** | **Miss B Williams** |

# MANYLION PYNCIAU CWRICWLWM BLWYDDYN 10 2024-2026

Ar y tudalennau nesaf byddwch yn medru darllen crynodeb o'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig i'ch plentyn ym Medi 2024. Er mwyn gwylio clip fideo sy'n eich cyflwyno i gynnwys y cyrsiau cliciwch ar y linc isod neu sganiwch y Cod QR. Bydd hyn yn agor ffeil One Drive lle bydd modd i chi wylio pob un o'r clipiau fideo mae'r adrannau wedi paratoi ar eich cyfer.

# YEAR 10 CURRICULUM SUBJECT DETAILS 2024-2026

The following pages provide a brief introduction to the subjects offered to your child from September 2024. Should you wish to watch a video clip for each subject please click on the link below or scan the QR Code. This will open a One Drive file where you can watch the video clips that Departments have prepared for you.

**TGAU / GCSE**

Dolen i'r cyflwyniadau pynciol / Link to subject presentations

https://ysgolypreseli365-my.sharepoint.com/:f:/g/personal/rm_ysgolypreseli_com/Enm7F1AA7QZFj74jwARpQ-sBx0MuLTr9F5RJs2LAMNYhZQ?e=Bae3hE

# CYMRAEG IAITH

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn meithrin agweddau cadarnhaol at yr iaith Gymraeg, y dreftadaeth lenyddol a'r diwylliant cyfoes aml-gyfrwng, gan feithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a hyrwyddo defnydd effeithiol ohoni. Caiff sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu eu cydnabod mewn TGAU Cymraeg Iaith. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr gael eu hysbrydoli, eu cymell a'u herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, gwerthfawr, sy'n rhoi boddhad. Byddant yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg fel dinasyddion gweithgar a gwybodus a byddant yn gallu siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn rhugl, yn briodol, yn effeithiol ac yn feirniadol - at amrywiaeth eang o ddibenion personol, gweithredol a chymdeithasol. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig, gan gynnwys testunau heriol a dynamig.

## Dull / Manylion Asesu

**Uned 1: Asesiad Diarholiad**
**Llafar - 30%**
**Tasg 1 (15%) - Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil (40 marc)**
Cyflwyniad unigol ar sail ymchwil a all gynnwys ymateb i gwestiynau ac adborth wedi'u seilio ar themâu gosod gan CBAC.
**Tasg 2 (15%) - Ymateb a Rhyngweithio (40 marc)**
Tasg grŵp yn seiliedig ar sbardunau ysgrifenedig a/neu weledol a ddarperir gan CBAC i symbylu trafodaeth.

**Uned 2: Asesiad Allanol**
**Darllen ac Ysgrifennu - Disgrifio, Naratif ac Esbonio 35% 2 awr**
**Adran A (15%) - Darllen (30 marc)**
Deall o leiaf un testun disgrifio, un naratif ac un esbonio yn cynnwys testunau di-dor a phytiog.
Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig.
Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun byr ar lefel gair, brawddeg a thestun (2.5% o'r cymhwyster cyfan).
**Adran B (20%) - Ysgrifennu (40 marc)**
Un dasg ysgrifennu o ddewis o ddau. Gall fod naill ai'n dasg ddisgrifio, tasg naratif neu dasg esbonio.

**Uned 3 : Asesiad Allanol**
**Darllen ac Ysgrifennu - Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol**
**35% 2 awr**
**Adran A (15%) - Darllen** (30 marc)
Deall o leiaf un testun trafod, un cyfarwyddiadol ac un perswâd, yn cynnwys testunau di-dor a phytiog. Asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig.
**Adran B (20%) - Ysgrifennu (40 marc)**
Un dasg ysgrifenedig orfodol – trafod ac un dasg ysgrifenedig orfodol - perswâd.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

O astudio'r Gymraeg fel pwnc mae posibiliadau gyrfaol diben draw. Os y dymunwch ddilyn gyrfa mewn llywodraeth leol neu'r Cynulliad, newyddiaduraeth neu'r Cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus neu addysgu dyma'r pwnc i chi. Mae'n cynnig llu o gyfleoedd i unrhyw un sydd am swydd ble mae angen sgiliau cyfathrebu huawdl a graenus.

# WELSH LANGUAGE

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

This course fosters positive attitudes towards the Welsh language, its literary heritage and contemporary multi-media culture by encouraging an appreciation of the language and promoting its effective use. Welsh Language GCSE acknowledges oral, reading and written skills.  We expect candidates to be inspired, motivated and challenged by pursuing a course that is broad and varied, valuable and enjoyable. They will develop their ability to use Welsh as knowledgeable and responsible citizens who will be able to speak, listen, read and write fluently, appropriately, effectively and critically for a wide range of personal, employment and social purposes. Candidates will be expected to respond to a wide variety of written subjects, including ones that are challenging and dynamic. They will develop the necessary knowledge and skills to make informed decisions on further education opportunities and career choices.

## Assessment Details / Method

**Unit 1: Non-examination assessment**
**Oral - 30%**
**Task 1 (15%) – Individual Presentation based on Research (40 marks)**
**Individual presentation based on research, which may contain responses to questions, and feedback based on WJEC based themes.**
**Task 2 (15%) Response and Interaction (40 marks)**
**A group task based on written and/or visual stimulus provided by WJEC to engender discussion.**

**Unit 2: External Assessment**
**Reading and Writing – Describe, Narrative and Explain**
**35% 2 hours**
**Section A (15%) – Reading (30 marks)**
**Understanding at least one discussion, one directional and one persuasive text, to include unbroken and chunked extract subjects.The reading will be assessed by means of a series of structured questions. This section will also include an editing subject task, which will concentrate on understanding a short text at a word, sentence and subject level (2.5% of the whole competence).**
**Section B (20%) – Written (40 marks)**
**Two compulsory written tasks - one discursive and one persuasive.**

**Unit 3: External Assessment**
**Reading and Writing - Discuss, Persuade and Directional**
**35% 2 hours**
**Section A (15%) - Reading (30 marks)**
**Understand at least one discussion subject, one directional and one persuasive, to include unbroken and chunked extract subjects. The reading will be assessed by means of a series of structured questions.**
**Section B (20%) - Writing (40 marks)**
**One compulsory written task - discursive, and one compulsory written task - persuasive.**

## Progression Routes / Careers

Studying Welsh as a subject gives numerous career prospects – local government and the Welsh Assembly, journalism and the media, the course gives a good opportunity to anyone who wishes to follow a career where good communication skills are imperative.

# SAESNEG IAITH

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Dyma'r cwrs Saesneg Iaith fwyaf heriol hyd yn hyn.  Mae'r cwrs, sydd yn newydd ers 2015, wedi cael gwared ar waith cwrs ysgrifenedig ac wedi rhoi pwyslais ar gyfathrebu a threfn eglur (gwerth hanner marciau yn adran B ar y ddau bapur arholiad) a chywirdeb ieithyddol, sef defnydd iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu, (hefyd gwerth hanner marciau yn adran B ar y ddau bapur arholiad).  Mae hyn yn golygu bod angen i bob myfyriwr i ganolbwyntio ar ei sgiliau ysgrifenedig o'r cychwyn. Yn ystod y cwrs, mae galw ar bob un i ymateb i amrediad eang o destunau ysgrifenedig, a dangos dealltwriaeth o sut y defnyddir iaith i gyfleu ystyron a syniadau.

## Dull / Manylion Asesu

**Uned 1 - Asesiad mewnol (20%)**
Tasg 1 (10%) – Cyflwyniad Unigol (40 marc)
Un cyflwyniad, yn seiliedig ar waith ymchwil. Gall gynnwys ymatebion i gwestiynau gan gynulleidfa a/neu adborth. Gosodir y thema gan CBAC.
Tasg 2 (10%) – Ymateb a Rhyngweithio (40 marc)
Un drafodaeth grŵp mewn ymateb i symbyliadau ysgrifenedig a/neu weledol. Darperir yr adnoddau yma gan CBAC.

**Uned 2 - Arholiad Allanol: 2 awr (40%)**
Adran A (20%) - Darllen (40 marc) Deall o leiaf un disgrifiad, un adroddiad ac un testun esboniad, gan gynnwys darnau di-dor. Asesir yr adran yma trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig. Mae'r adran yma hefyd yn cynnwys tasg golygu (2.5% o'r cymhwyster).
Adran B (20%) - Ysgrifennu (40 marc) Un dasg ysgrifenedig allan o ddewis o ddau. Gall y darnau yma fod yn ddisgrifiad, yn stori fer neu yn draethawd esboniadol. Bydd yna adran brawf-ddarllen hefyd sydd yn gofyn i ddisgyblion i ysgrifennu'n gywir (2.5% o'r cymhwyster).

**Uned 3 - Arholiad Allanol: 2 awr (40%)**
Adran A (20%) - Darllen (40 marc) Deall o leiaf un darn ble gyflwynir dadl, un darn perswadiol ac un darn o gyfarwyddiadau, gan gynnwys darnau di-dor. Asesir yr adran yma trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig.
Adran B (20%) - Ysgrifennu (40 marc) Un darn gorfodol sydd yn cyflwyno dadl ac un darn gorfodol sydd yn perswadio'r gynulleidfa. Bydd hanner y marciau ar gyfer cyfathrebu a threfn eglur, a hanner y marciau am gywirdeb ieithyddol, sef defnydd iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae cymhwyster da mewn Saesneg Iaith yn hanfodol ym mhob gyrfa gan fod safon uchel o gyfathrebu ysgrifenedig a chyfathrebu ar lafar yn holl bwysig. O beiriannydd i athro, newyddiadurwr i feddyg, mae angen gradd A*- C ar bawb er mwyn llwyddo yn y byd gwaith.

# ENGLISH LANGUAGE

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

The WJEC's course introduced in 2015 is the most challenging yet. With the removal of written coursework, and half of the marks for section B in both exam papers being awarded for communication and organisation (meaning, purpose, readers and structure) and half for writing accurately (language, grammar, punctuation and spelling), GCSE students must focus on improving their skills from the start. Students will need to respond to a wide range of written texts, demonstrating a sound understanding of the ways in which language is used to convey meanings and ideas, as well use language creatively and with precision.

## Assessment Details / Method

**Unit 1 - Non-examination assessment (20%)**
Task 1 (10%) – Individual Researched Presentation (40 marks) One individual, researched presentation, which may include responses to questions and feedback, based on WJEC set themes.
Task 2 (10%) – Responding and Interacting (40 marks) One group discussion to written and/or visual stimuli provided by WJEC to initiate the discussion.

**Unit 2 - External assessment: 2 hours (40%)**
Section A (20%) – Reading (40 marks) Understanding of at least one description, one narration and one exposition text, including continuous and non-continuous texts, assessed through a range of structured questions. This section will also include an editing task (2.5% of qualification total).
Section B (20%) – Writing (40 marks) One writing task to be selected from a choice of two that could be: either description, narration or exposition. This section will also include one proofreading task focusing on writing accurately (2.5% of qualification total)

**Unit 3 - External assessment: 2 hours (40%)**
Section A (20%) – Reading (40 marks) Understanding of at least one argumentation, one persuasion and one instructional text, including continuous and non-continuous texts, assessed through a range of structured questions.
Section B (20%) – Writing (40 marks) One compulsory argumentation writing task and one compulsory persuasion writing task. Half of the marks for this section will be awarded for communication and organisation (meaning, purpose, readers and structure) and the other half for writing accurately (language, grammar, punctuation and spelling).

## Progression Routes / Careers

A good qualification in English Language is essential in all careers as an excellent standard of both written and spoken communication is vital. From mechanics to teachers, journalists to doctors, everyone needs an A*-C in this subject to progress on the career ladder.

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## Bwrdd Arholi - CBAC

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn meithrin agweddau cadarnhaol at yr iaith Gymraeg, y dreftadaeth lenyddol a'r diwylliant cyfoes aml-gyfrwng, gan feithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a hyrwyddo defnydd effeithiol ohoni. Bydd y fanyleb yn galluogidysgwyr i ddeall bod testunau wedi bod yn ddylanwadol ac yn arwyddocaol dros amser gan wneud iddynt ystyried eu hystyr yn yr oes sydd ohoni. Arweinir dysgwyr i ystyried sut y gall testunau adlewyrchu gwerthoedd, rhagdybiaethau ac ymdeimlad o hunaniaeth neu ddylanwadau arnynt. Hyfforddir disgyblion i ddod yn ddarllenwyr beirniadol rhyddiaith ffuglennol, barddoniaeth a drama yn ogystal ag astudio ffilmiau. Cyflwyna'r cwrs gyfle i ddysgwyr brofi gwahanol gyfnodau, diwylliannau, safbwyntiau a sefyllfaoedd mewn cyd-destunau amrywiol. Byddant yn gallu ymateb i themâu, plotiau, cymeriadaeth, deialog a chefndir drwy gyfrwng llenyddiaeth weledol yn ogystal ag ar ffurf ysgrifenedig.

## Dull / Manylion Asesu

**Uned 1: Barddoniaeth (25%)**
**Papur Ysgrifenedig 1¼ awr**
**Barddoniaeth**
**Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr werthfawrogi a chymharu un o'r cerddi gosod â cherdd nas astudiwyd o'r blaen.**

**Uned 2: Nofel (25%)**
**Papur Ysgrifenedig 1¼ awr**
**Nofel**
**Cwestiynau wedi'u strwythuro ar y testunau gosod**

**Uned 3 : Llunyddiaeth**
**Arholiad Llafar (25%) tua 20 munud i bob grŵp**
**Llunyddiaeth - astudiaeth o ffilm a thestyn llenyddol**
**Caiff yr ymgeiswyr eu harholi mewn grwpiau o dri ar destun llunyddol.**

**Uned 4 : Asesiad Diarholiad: Tasgau Ysgrifenedig (25%)**
**Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu ar ddwy dasg:**
**Tasg1 Straeon byrion - gwerthfawrogi rhyddiaith**
**Tasg 2 Drama - dehongli testun yn greadigol**

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

O astudio'r Gymraeg fel pwnc mae posibiliadau gyrfaol diben draw. Os y dymunwch ddilyn gyrfa mewn llywodraeth leol neu'r Cynulliad, newyddiaduraeth neu'r cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus neu addysgu dyma'r pwnc i chi. Mae'n cynnig llu o gyfleoedd i unrhyw un sydd am swydd ble mae angen sgiliau cyfathrebu huawdl a graenus.

# WELSH LITERATURE

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

The GCSE specification in Welsh Literature fosters positive attitudes towards the Welsh language, its literary heritage and contemporary multi-media culture by encouraging an appreciation of the language and promoting its effective use. Studying the course will enable learners to understand that texts have been influential and significant over time and explore their meaning today. Candidates will be encouraged to explore how texts may reflect or influence values, assumptions and a sense of identity. They will be taught how to connect ideas, themes and issues, drawing on a range of texts; become critical readers of fiction and non-fiction prose, poetry and drama as well as studying films. The course presents an opportunity to experience different times, cultures, viewpoints and situations in a variety of literary contexts. They will be able to respond to themes, plots, characters, dialogue and background through the study of visual and written literature.

## Assessment Details / Method

Unit 1: Poetry (25%)
Written Paper 1¼ hours
Poetry
Candidates will be expected to appreciate and compare one of the set poems alongside an unseen poem.

Unit 2: Novel (25%)
Written Paper 1¼ hours
Novel
Structured questions to assess understanding of the set texts

Unit 3 : Visual literature
Oral Examination - (25%) - approximately 20 minutes for each group
Study of film and literary text
Candidates will be examined in groups of three on a visual literary text

Unit 4: Non-examination assessment: Written Tasks (25%)
Candidates will be assessed in two tasks:
Task 1 Short Stories - prose appreciation
Task 2 Drama - a creative interpretation of a chosen text

## Progression Routes / Careers

Studying Welsh as a subject gives numerous career prospects – local government and the Welsh Assembly, journalism and the media, the course gives a good opportunity to anyone who wishes to follow a career where good communication skills are imperative.

# LLENYDDIAETH SAESNEG

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae'r cymhwyster Saesneg Llên, sydd ar gael i bob disgybl, yn galluogi dysgwyr i ymchwilio i mewn i sut mae testunau o wahanol ddiwylliannau yn dylanwadu ar ein gwerthoedd, rhagdybiaethau a'n hunaniaeth. Dyluniwyd y cwrs i annog disgyblion i fod yn ddarllenwyr beirniadol o ryddiaith, cerddi a drama, wrth iddynt brofi gwahanol gyfnodau hanesyddol, gwahanol safbwyntiau a sefyllfaoedd sydd yn y testunau gosod.  Ychwanegiad newydd i'r fanyleb ers 2015 yw'r cyfle i werthfawrogi etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru trwy astudio cerddi cyfrwng Saesneg gan feirdd Cymraeg.

## Dull / Manylion Asesu

**Uned 1 Rhyddiaith (diwylliannau gwahanol) a Cerddi (cyfoes): 2 awr (35%)**
Adran A 21% Rhyddiaith: Of Mice and Men (Steinbeck). Dadansoddi un detholiad o'r nofel, ac ysgrifennu un traethawd llenyddol.
Adran B 14% (cymhariaeth) Cerddi Cyfoes: Cymharu cerddi anweledig – fe fydd y disgyblion yn paratoi tuag at yr adran yma drwy astudio amrywiaeth o gerddi cyfoes.

**Uned 2 Etifeddiaeth Llenyddol a Rhyddiaith Cyfoes: 2 awr (40%)**
Etifeddiaeth Llenyddol Saesneg/Cymraeg/Gwyddelig - Drama: Othello (Shakespeare); NEU Much Ado About Nothing (Shakespeare); NEU An Inspector Calls (Priestley); NEU Hobson's Choice (Brighouse); NEU A Taste of Honey (Delaney). Dadansoddi un detholiad o'r nofel, ac ysgrifennu un traethawd llenyddol (20%).
Rhyddiaith Cyfoes: Paddy Clarke, Ha Ha Ha (Doyle); NEU Heroes (Cormier); NEU Never Let Me Go (Ishiguro); NEU About a Boy (Hornby); NEU Resistance (Sheers).Dadansoddi un detholiad o'r nofel, ac ysgrifennu un traethawd llenyddol (20%).

**Uned 3: Shakespeare ac Ysgrifennu Cymreig yn Saesneg (25%)**
Adran A: Traethawd Shakespeare (12.5%)
Dewisir drama gan y ganolfan (ond nid Othello na Much Ado About Nothing). Bydd CBAC yn creu tasgau generig ar themâu penodol ar gyfer pob ysgol.
Adran B: Ysgrifennu Cymreig yn Saesneg (12.5%)
Cerddi cytunedig o anthology y Llyfrgell Genedlaethol Poetry 1900-2000: One Hundred Poets from Wales.Bydd myfyrwyr yn astudio 15 cerdd ar thema benodol ac yn cymharu o leiaf dwy gerdd mewn ymateb i gwestiwn traethawd a osodir gan CBAC.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Rhai gyrfaoedd sydd wedi eu cysylltu'n agos gyda chymhwyster da yn Saesneg Llên yw: byd y cyfryngau a newyddiaduraeth; bwrdd-gyhoeddi; hysbysebu a PR; dysgu a darlithio; dylunio ac ysgrifennu deunydd hysbysebu ar gyfer amgueddfeydd, galerïau, gwyliau neu ddigwyddiadau lleol/cenedlaethol; bod yn swyddog y wasg ar gyfer sefydliad neu elusen genedlaethol.

# ENGLISH LITERATURE

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

The GCSE specification in English Literature, available to all students, enables learners to explore how texts from different cultures and traditions may reflect or influence values, assumptions and a sense of identity. It is designed to allow students to become critical readers of fiction and non-fiction prose, poetry and drama, whilst experiencing different times, cultures, viewpoints and situations as found in literary texts. A new addition to the syllabus is the chance to appreciate Wales' cultural heritage through the study of Welsh writing in English.

## Assessment Details / Method

**Unit 1 Prose (different cultures) and Poetry (contemporary): 2 hours (35%)**
Section A 21% Different Cultures Prose: Of Mice and Men (Steinbeck). One extract analysis question and a choice of essay.
Section B 14% (COMPARATIVE STUDY) Contemporary: Unseen poetry comparison, the preparation for which will include the study of contemporary poems.

**Unit 2 Literary Heritage and Contemporary Prose: 2 hours (40%)**
English/Welsh/Irish Literary Heritage Drama: Othello (Shakespeare); OR Much Ado About Nothing (Shakespeare); OR An Inspector Calls (Priestley); OR Hobson's Choice (Brighouse); OR A Taste of Honey (Delaney). One extract analysis question and a choice of essay (20%).

Contemporary Prose: Paddy Clarke, Ha Ha Ha (Doyle); OR Heroes (Cormier); OR Never Let Me Go (Ishiguro); OR About a Boy (Hornby); OR Resistance (Sheers). One extract analysis question and a choice of essay (20%).

**Unit 3 Shakespeare and Welsh Writing in English (25%)**
Section A: Shakespeare Essay (12.5%)
A play by Shakespeare chosen by the centre (but not Othello or Much Ado About Nothing). WJEC will set a generic task on a specific theme which centres may use or modify.
Section B: Welsh Writing in English Essay (12.5%)
Stipulated poetry from the Library of Wales anthology Poetry 1900-2000: One Hundred Poets from Wales. Candidates study fifteen specified poems listed for the chosen theme. WJEC will set generic tasks on the theme. Centres may use or modify one task. Centres must ensure that the task requires comparison of at least two poems.

## Progression Routes / Careers

Careers linked closely with good qualifications in English Literature are: the field of media and journalism; publishing, advertising and PR; teaching and lecturing; designing and writing publicity materials for museums, art galleries, festivals and events; becoming a press officer for national organisations and charities. The possibilities are endless.

# MATHEMATEG / MATHEMATEG RHIFEDD

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Bydd pawb yn dilyn dau gwrs llinol yn arwain at ddau gymhwyster.
Un bydd TGAU ym Mathemateg a'r llall yn TGAU Mathemateg – Rhifedd.
Mae tair haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:
Haen Uwch: Graddau A* – C
Haen Ganolradd: Graddau B – E
Haen Sylfaenol: Graddau D – G

## Dull / Manylion Asesu

Bydd 2 arholiad ysgrifenedig (Uned 1 ac Uned 2) ar gyfer pob cymhwyster, sef pedwar papur ysgrifenedig ar gyfer y ddau gymhwyster.

**Uned 1- Heb gyfrifiannell**
Haen Uwch: 1 awr 45 munud
Haen Canolradd: 1 awr 45 munud
Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud

**Uned 2 – Caniateir cyfrifiannell**
Haen Uwch: 1awr 45 munud
Haen Canolradd: 1awr 45 munud
Haen Sylfaenol: 1awr 30 munud

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael yng nghyfresi'r haf a mis Tachwedd bob blwyddyn.

Nid oes gwaith cwrs yn rhan o'r asesiad.

Mae'r manylebau llawn ar gael ar-lein:
**http://www.cbac.co.uk/qualifications/mathematics/mathematics-gcse/?language_id=2**

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae'r mwyafrif o swyddi a gyrfaoedd yn galw am TGAU Mathemateg. Gwneir defnydd helaeth o Fathemateg yn y gyrfaoedd canlynol; economeg, meddygaeth, pensaernïaeth, peirianneg, cyfrifyddiaeth, dysgu, bancio, yswiriant, seicoleg, astudiaethau amgylcheddol, cyfrifiaduraeth, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a marchnata.

# MATHEMATICS / NUMERACY

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

Everyone will follow two linear courses leading to two qualifications.
One will be a GCSE in Mathematics and the other a GCSE in Mathematics – Numeracy.
There are 3 tiers of entry for this qualification:
Higher Tier: Grades A* – C
Intermediate Tier: Grades B – E
Foundation Tier: Grades D – G

## Assessment Details / Method

There are 2 written examinations (Unit 1 and Unit 2) for each qualification, that is, four written examinations for the two qualifications

Unit 1- Non calculator
Higher tier: 1 hour 45 minutes
Intermediate tier: 1 hour 45 minutes
Foundation tier: 1 hour 30 minutes

Unit 2 – Calculator allowed
Higher tier: 1 hour 45 minutes
Intermediate tier: 1 hour 45 minutes
Foundation tier: 1 hour 30 minutes

This linear qualification will be available in the summer and November series each year.

There are no coursework elements to the course.

The full specifications can be found online:
http://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics/mathematics-gcse/?language_id=1

## Progression Routes / Careers

Almost all jobs and careers require you to have Maths GCSE. The following careers are some that would make a lot of use of mathematics; economics, medicine, architecture, engineering, accountancy, teaching, banking, insurance, psychology, environmental studies, computing, information and communication technology and marketing.

# GWYDDONIAETH

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae'n rhaid i bob disgybl ddilyn naill ai'r cwrs Gwyddoniaeth Ddwyradd, sy'n werth DAU TGAU mewn cyfuniad o'r tri Gwyddor, neu Wyddoniaeth Trifflyg sy'n arwain at gymwysterau TGAU gwahanol mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg.

Mae astudio TGAU Gwyddoniaeth yn gweithredu fel sail ar gyfer deall y byd materol. Mae dealltwriaeth wyddonol yn newid ein bywydau ac mae'n hanfodol i ffyniant y byd yn y dyfodol. Dylid addysgu pob dysgwr felly yn yr agweddau hanfodol ar y wybodaeth, dulliau, prosesau a defnyddiau o wyddoniaeth. Dylid helpu'r dysgwyr i werthfawrogi sut y gellir disgrifio ffenomenau cymhleth ac amrywiol y byd naturiol yn nhermau nifer bach o syniadau allweddol yn ymwneud â'r gwyddorau sy'n rhyng-gysylltiol ac i'w cymhwyso'n gyffredinol.

## Dull / Manylion Asesu

**Gwyddoniaeth Dwyradd – asesir y cwrs hwn fel a ganlyn:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mai / Mehefin Bl 10** | **Bioleg 1**<br>Celloedd, Systemau Organau ac Ecosystemau<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud | **Cemeg 1**<br>Sylweddau Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau Hanfodol<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud | **Ffiseg 1**<br>Trydan, Egni a Thonnau<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud |
| **Bl 11** | **2 Asesiad Ymarferol** 20% o'r cymhwyster | | |
| **Mai / Mehefin Bl 1** | **Bioleg 2**<br>Amrywiad, Homeostasis a Micro-Organebau<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud | **Cemeg 2**<br>Bondio Cemegol, Cymhwyso Adweithiau Cemegol a Chemeg Organig<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud | **Ffiseg 2**<br>Grymoedd, y Gofod ac Ymbelydredd<br>15% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 15 munud |

**Gwyddoniaeth triphlyg- asesir y cwrs hwn fel a ganlyn:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mai / Mehefin Bl 10** | **Bioleg 1**<br>Celloedd, Systemau Organau ac Ecosystemau<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud | **Cemeg 1**<br>Sylweddau Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau Hanfodol<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud | **Ffiseg 1**<br>Trydan, Egni a Thonnau<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud |
| **Bl 11** | **Asesiad Ymarferol**<br>10% o'r cymhwyster | **Asesiad Ymarferol**<br>10% o'r cymhwyster | **Asesiad Ymarferol**<br>10% o'r cymhwyster |
| **Mai / Mehefin Bl 11** | **Bioleg 2**<br>Amrywiad, Homeostasis a Micro-Organebau<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud | **Cemeg 2**<br>Bondio Cemegol, Cymhwyso Adweithiau Cemegol a Chemeg Organig<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud | **Ffiseg 2**<br>Grymoedd, y Gofod ac Ymbelydredd<br>45% o'r cymhwyster<br>Arholiad 1 awr 45 munud |

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Bydd cyfle gan bob disgybl sy'n astudio TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd neu Drifflyg i astudio cyrsiau safon uwch mewn Bioleg, Cemeg neu Ffiseg ond bydd dilyniant i gyrsiau Safon Uwch yn seiliedig ar berfformiad boddhaol yn y cyrsiau TGAU. Serch hynny bydd y cwrs Gwyddoniaeth Trifflyg yn darparu paratoad mwy manwl ar gyfer astudiaethau Safon Uwch.

# SCIENCE

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

All students will be required to follow either Double Award Science, which is worth TWO GCSE qualifications in a combination of the three sciences, or Triple Award Science, which leads to separate GCSEs in Biology, Chemistry and Physics.

Studying GCSE Science provides the foundations for understanding the material world. Scientific understanding is changing our lives and is vital to the world's future prosperity, and all learners should be taught essential aspects of the knowledge, methods, processes and uses of science. They should be helped to appreciate how the complex and diverse phenomena of the natural world can be described in terms of a small number of key ideas relating to the sciences which are both inter-linked, and are of universal application.

## Assessment Details / Method

**Double Award Science will be assessed as follows:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **May / June Year 10** | **Biology 1**<br>Cells, Organ Systems and Ecosystems<br><br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination | **Chemistry 1**<br>Chemical Substances, Reactions and Essential Resources<br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination | **Physics 1**<br>Electricity, Energy and Waves<br><br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination |
| **Year 11** | **2 Practical Assessments** 20% of qualification | | |
| **May / June Year 11** | **Biology 2**<br>Variation, Homeostasis, and Micro-organisms<br><br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination | **Chemistry 2**<br>Chemical Bonding, Application of Chemical Reactions and Organic Chemistry<br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination | **Physics 2**<br>Forces, Space and Radioactivity<br><br>15% of qualification<br>1hour 15 minute examination |

**Triple Award Science will be assessed as follows:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **May / June Year 10** | **Biology 1**<br>Cells, Organ Systems and Ecosystems<br><br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination | **Chemistry 1**<br>Chemical Substances, Reactions and Essential Resources<br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination | **Physics 1**<br>Electricity, Energy and Waves<br><br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination |
| **Year 11** | **Practical Assessment**<br>10% of qualification | **Practical Assessment**<br>10% of qualification | **Practical Assessment**<br>10% of qualification |
| **May / June Year 11** | **Biology 2**<br>Variation, Homeostasis, and Micro-organisms<br><br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination | **Chemistry 2**<br>Chemical Bonding, Application of Chemical Reactions and Organic Chemistry<br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination | **Physics 2**<br>Forces, Space and Radioactivity<br><br>45% of qualification<br>1hour 45 minute examination |

## Progression Routes / Careers

All students who study Double or Triple Award Science will be able to study A-level courses in Biology, Chemistry or Physics but progress to study A –level courses is dependent on satisfactory performance in the GCSE courses. However, following Triple Award Science will provide more detailed preparation for A-level studies.

# ADDYSG GORFFOROL

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad
- deall sut mae'r cyflwr ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- perfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a dewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
- datblygu eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- deall y cyfraniad mae gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn ei wneud i iechyd, ffitrwydd a lles
- deall dylanwadau diwylliannol cymdeithasol allweddol sy'n gallu effeithio ar gysylltiad pobl â gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru a'r byd ehangach.

## Dull / Manylion Asesu

| | |
|---|---|
| **Uned 1** : Cyflwyniad i Addysg Gorfforol<br>Arholiad ysgrifenedig : **2 awr**<br>**50%** o'r cymhwyster | **100 marc** |
| Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig. Bydd y cwestiynau yn seiliedig ar ysgogiadau clyweled a ffynonellau eraill. | |
| **Uned 2** : Y cyfranogwr gweithredol mewn Addysg Gorfforol<br>Asesu di-arholiad<br>**50%** o'r cymhywster | **100 marc** |
| Asesir dysgwyr mewn **tri** gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr mewn o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn, **un** gamp ar gyfer tîm ac **un** arall.<br>Bydd un gweithgaredd yn brif weithgaredd fydd â rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd. | |

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae'r cwrs TGAU Addysg Gorfforol yn cynnig cyfleodd i ddysgwyr gael mynediad i gyflogaeth yn y sector chwaraeon neu hamdden actif, neu i ddilyn cwrs addysg uwch galwedigaethol fel y BTEC Cenedlaethol Uwch mewn Chwaraeon.

# PHYSICAL EDUCATION

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

By studying GCSE Physical Education learners will:

- develop theoretical knowledge and understanding of the factors that underpin physical activity and sport and use this knowledge to improve performance
- understand how the physiological and psychological state affects performance in physical activity and sport
- perform effectively in different physical activities by developing skills and techniques and selecting and using tactics, strategies and/or compositional ideas
- develop their ability to analyse and evaluate to improve performance in physical activity and sport
- understand the contribution which physical activity and sport make to health, fitness and well-being
- understand key socio-cultural influences which can affect people's involvement in physical activity and sport in Wales and the wider world.

## Assessment Details / Method

| | |
|---|---|
| **Unit 1** : Introduction to Physical Education<br>Written Examination: **2 hours**<br>**50%** of qualification | **100 marks** |
| Learners will be assessed through a range of short and extended questions.<br>The questions will be based on audiovisual stimuli and other sources. | |
| **Unit 2** : The active participant in Physical Education<br>Non exam assessment<br>**50%** of qualification | **100 marks** |
| Learners will be assessed in **three** different activities in the role of performer in at least **one** individual sport, **one** team sport and **one** other.<br>One activity will be a major activity which will have a personal fitness programme linked to the activity. | |

## Progression Routes / Careers

GCSE PE gives learners the opportunity to enter employment in the sport and active leisure sector or to progress to further education vocational qualifications such as the Edexcel BTEC Higher Nationals in Sport.

# BWYD A MAETH (COGINIO)

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae cwrs mewn Bwyd a Maeth yn cynnig cyfle arbennig yn y cwricwlwm i ymgeiswyr ddatblygu eu gwybodaeth ac estyn eu sgiliau mewn bwyd a maeth mewn cyd-destun galwedigaethol. Bydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol ymgeiswyr, amrywiaeth o Sgiliau Allweddol a'u gallu i feddwl yn ddychmygus ac yn ddyfeisgar, i fod yn greadigol ac annibynnol.
Mae'n gymhwyster addas i rai sydd am gael cefndir eang yn y maes hwn ac i rai sydd am fynd ymlaen i addysg bellach ac i barhau ag arlwyo fel gyrfa.

Mae'r fanyleb yn annog archwilio ac astudio bwyd a maeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

## Dull / Manylion Asesu

Mae'r fanyleb yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu i alluogi'r ymgeiswyr i ymateb trwy waith ymarferol ac archwilio.
**Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth** (**40% o'r cynhwyster**)
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Bydd yr uned hon yn cynnwys dwy adran, a'r ddwy yn cynnwys cwestiynau gorfodol.
**Adran A** : cwestiynau'n seiliedig ar ddeunydd ysgogi
**Adran B** : amrywiaeth o wahanol fathau o gwestiynau er mwyn asesu'r holl gynnwys sy'n gysylltiedig â bwyd a maeth.

**Uned 2: Bwyd a Maeth ar waith** ( **60% o'r cymhwyster**)
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol
**Asesiad 1: Asesiad Ymchwiliad bwyd** (**10 awr**)
Bydd 20% o gyfanswm y marciau sydd ar gael yn cael eu neilltuo ar gyfer ymchwiliad bwyd gwyddonol fydd yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â'r egwyddorion gwyddonol sy'n sail i baratoi a choginio bwyd.
**Asesiad 2 : Asesiad paratoi bwyd** (**15 awr**)
Bydd 40% o gyfanswm y marciau sydd ar gael yn cael eu neilltuo i dasg sy'n asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â chynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno prydau i greu bwydlen.

(Rhaid cofio fe fydd yn angenrheidiol i ddisgyblion gario llestri, blodau, lliain bwrdd a chynhwysion coginio i'r arholiad ymarferol ym mlwyddyn 11.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae cymhwyster TGAU Bwyd a Maeth yn cynnig ffocws ymarferol arbenigol mewn Lletygarwch ac Arlwyo i fyfyrwyr.Gall disgyblion symud ymlaen yn naturiol at gymwysterau perthnasol uwch yn y sector arbenigol yma e.e. Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth.

# FOOD AND NUTRITION (COOKERY)

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

A course in Food and Nutrition offers a unique opportunity in the curriculum for candidates to develop their knowledge and extend their skills within food and nutrition in a vocational context.  It will provide opportunities to develop candidates' interdisciplinary skills, a range of Key Skills and their capacity for imaginative, innovative thinking, creativity and independence.
It is a suitable qualification for those who want a broad background in this area and for those who wish to progress to further education or who wish to pursue a career in food and nutrition.

The specification encourages the investigation and study of catering in a variety of contexts.

## Assessment Details / Method

The specification uses a range of assessment techniques to enable the candidate to respond through prctical investigative work.

**Unit 1:Principles of Food and Nutrition (40% of qualification)**
Written examination: 1 hour 30 minutes
This unit will consist of two sections both containing compulsory questions
**Section A**: question based on stimulus material
**Section B** : a range of question types to assess all content related to food and nutrition

**Unit 2 : Food and Nutrition in Action**
Non-examination assessment: internally assessed, externally moderated
**Assessment 1 : The Food investigation Assessment (10 hours)**
20% of total marks available will be allocated to a scientific food investigation which will assess the learners knowledge, skills and understanding in relation to the scientific principles underlying the preparation and cooking of food
**Assessment 2 : The food preparation Assessment (15 hours)**
405 of total marks available will be allocated to a task, which assesses the learner's knowledge, skills and understanding in realtion to the planning, preparation, cooking and presentation of dishes to form a menu.
(Please note that pupils will be expected to carry in crockery, flowers, tablecloth and food ingredients for the unit 2 practical assessment.)

## Progression Routes / Careers

GCSE Food and Nutrition offers a specialist vocational focus in Catering and hospitality for students. Students can progress naturally to relevant qualifications in this sector, e.g.  Level 3 Diploma Food Science and Nutrition

# BUSNES

## Bwrdd Arholi - CBAC

## Crynodeb o'r cwrs

Bydd cynnwys pwnc TGAU Busnes yn cael ei asesu mewn dau bapur arholiad:

| **Uned 1: Byd Busnes** | **Uned 2: Canfyddiadau Busnes** |
|---|---|
| Arholiad ysgrifenedig: 2 awr | Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud |
| 62.5% o'r cymhwyster | 37.5% o'r cymhwyster |
| 100 Marc | 60 Marc |
| Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb | Cwestiynau ymateb i ddata yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb |

## Dull / Manylion Asesu

Mae'r ddwy uned yn asesu cynnwys o'r chwe maes testun, felly bydd yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o bob elfen o gynnwys y pwnc ym mhob asesiad.

Mae cynnwys y pwnc yn rhoi cyfle i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nifer o swyddogaethau a materion craidd busnes mewn ffordd syml a synoptig.

Mae'r fanyleb yn llinol, gyda 100% o'r cymhwyster yn cael ei asesu'n allanol ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd.

Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno mewn chwe maes testun penodol:

- Gweithgaredd busnes
- Dylanwadau ar fusnes
- Gweithrediadau busnes
- Cyllid
- Marchnata

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Busnes naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Mae'r cymhwyster yn berthnasol i amryw o lwybrau gyrfaol gwahanol.

# BUSINESS

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

The subject content for GCSE Business will be assessed across two examinations papers:

| Unit 1: Business World | Unit 2: Business Perceptions |
|---|---|
| Written examination: 2 hours | Written examination: 1 hour 30 minutes |
| 62.5% of the qualification | 37.5% of the qualification |
| 100 Marks | 60 Marks |
| A mix of short answer and structured questions based on stimulus material covering all of the specification content | Data response questions covering all of the specification content |

## Assessment Details / Method

Both units assess content from all six topic areas, so learners will be required to draw together knowledge, skills and understanding from across the subject content in each assessment.

The subject content gives learners the opportunity to apply knowledge and understanding of a number of core business functions and issues in a straightforward and synoptic way.

The specification is linear - with 100% external assessment at the end of the two year course.

The content is presented in 6 topic areas:

- Business activity
- Influences on business
- Business operations
- Finance
- Marketing

## Progression Routes / Careers

This specification provides a suitable foundation for the study of Business at either AS or A level. The qualification is relevant to a number of career pathways.

# CELF A DYLUNIO

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae’r fanyleb hon yn cynnig cyfleoedd i ddilyn cwrs sy'n annog creadigedd, ymchwilio cyson, arbrofi, a dylunio a gwneud fel ffordd o feithrin sgiliau technegol a mynegiannol, gan estyn y profiad a'r ymateb personol, yn ogystal â datblygu dychymyg a meddwl myfyriol, beirniadol. Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle felly i feithrin amrywiaeth eang o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer addysg bellach ac uwch, yn ogystal â chyflogaeth. Mae Unedau’n cael eu hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol ac yn annog dilyn rhaglenni astudio sy'n fentrus ac yn agored, yn hyrwyddo archwilio ac arbrofi pwrpasol a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu hunain mewn ffordd gynhyrchiol a phersonol

## Dull / Manylion Asesu

Lluniwyd y fanyleb hon o gwmpas pedwar prif faes er mwyn astudio celf, crefft a dylunio yn feirniadol, yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol. Ynddynt, pwysleisir priodweddau dealltwriaeth ddadansoddol, arbrofi ymarferol, ymchwilio a mynegiant unigol y maent i gyd yn angenrheidiol ar lefel TGAU. Darparwyd y penawdau amcanion asesu isod:

**AA1 Dealltwriaeth feirniadol**
**AA2 Gwneud Creadigol**
**AA3 Cofnodi Myfyriol**
**AA4 Cyflwyno Personol**

**Uned 1 Portffolio** (**60% o’r cymhwyster**)
Lluniwyd yr uned hon fel bod modd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau craidd sylfaenol rhagarweiniol a chael eu hannog i ymgymryd â phrofiadau creadigol cyffrous sy'n datblygu dysg a'u gwybodaeth sylfaenol, sgiliau cyd-destunol a meddwl beirniadol. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer yr uned hon yn cynnig cyfleoedd hefyd i ganolbwyntio ar feithrin sgiliau gwerthfawr (sy'n cynnwys arbrofi, cymryd risg, lluniadu a'r gallu i ddadansoddi a chyfosod gwybodaeth a syniadau) yn ogystal â datblygu a mireinio technegau.
Mae'r Portffolio yn cael ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Bydd yr holl waith a gynhyrchir ar gyfer yr uned hon yn cael ei farcio mewn perthynas â'r amcanion asesu.

**Uned 2 Aseiniad wedi’i osod yn allanol** (**40% o’r cymhwyster**)
Bydd myfyrwyr yn datblygu eu hymateb dros gyfnod paratoi o chwe wythnos. Rhaid i ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoadol a/neu astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a chyd-destunol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn i wireddu'r syniadau hyn mewn astudiaeth ddwys a manwl. Yn dilyn y cyfnod astudiaeth baratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **10 awr o waith dwys a manwl** i'r myfyrwyr i wireddu eu hymateb heb gymorth ac mewn amodau dan oruchwyliaeth.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Wrth ddilyn cwrs gradd Celf a Dylunio, gellir dilyn sawl llwybr gyrfaol, gan weithio fel un o’r canlynol: arlunydd proffesiynol, arlunydd cymunedol, pensaer, dylunydd mewnol, ffotograffydd, animeiddiwr, gwneuthurwr celfyddydol, dylunydd cynnyrch/ffasiwn, ymarferwr creadigol, gweithiwr llawrydd, curadur, gweinyddwr celf a dylunio, athro/athrawes gynradd neu uwchradd, yn ddibynnol ar ennill TAR ychwanegol.

# ART AND DESIGN

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

The course gives opportunities to follow a programme which encourages creativity, sustained investigation, experimentation, design and making as a means of developing technical and expressive skills, extending experience and personal response, as well as developing imagination and critical, reflective thinking. Thus, students will have the opportunity to develop a wide range of essential skills required for further and higher education, as well as employment. The internally assessed units encourage adventurous and open programmes of study that promote purposeful exploration, experimentation and opportunities for productive personal expression.

## Assessment Details / Method

TThe specification is designed to encompass four principal areas for critical, practical and theoretical study of art, craft and design. These emphasise the qualities of analytical understanding, practical experimentation, researching and individual expression required at GCSE level. The assessment objective are as follows:

**AO1 Critical understanding**
**AO2 Creative making**
**AO3 Reflective recording**
**AO4 Personal presentation.**

**Unit 1 Portffolio (60% of qualification)**
This unit is designed to enable students to effectively develop an introductory foundation of core skills and encourage engagement with exciting creative experiences which build fundamental learning, knowledge, contextualisation skills and critical thinking. The time available for this unit also provides opportunities to focus on the acquisition of valuable skills (which include experimentation, drawing, the application of the formal elements and the ability to analyse and synthesise information and ideas) as well as to develop and refine techniques.
The Portfolio is internally assessed and externally moderated.  Work produced for this unit will be assessed in relation to all four assessment objectives.

**Unit 2 Externally Set Assignment (40% of qualification)**
Students will develop their response over a preparatory period of six weeks. Responses must take the form of critical, practical and contextual preparatory work and/or supporting studies, which will inform the resolution of these ideas in a sustained focus study. Following the preparatory study period, students will be allocated a period of 10 hours sustained focus study to realise their response unaided and under supervised conditions.

## Progression Routes / Careers

By following a degree course in Art and Design, there are several career paths open to you, working as one of the following: professional artist, community artist, architect, interior designer, photographer, animator, artistic manufacturer, product/fashion designer, creative practitioner, freelancer, curator, art and design administrator, primary or secondary teacher, subject to gaining a PGCE.

# CERDD

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Bydd y cwrs hwn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.
Bydd 3 sgil yn cael eu hasesu:

- Gwerthuso 30%
- Perfformio 35%
- Cyfansoddi 35%

## Dull / Manylion Asesu

Uned 1: Perfformio (35%)
Sgiliau Perfformio (30%)
Arholiad ymarferol sydd yn cael ei hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol.Rhaid i'r ymgeisydd:
·Canu neu chwarae unawd a
·Canu neu chwarae mewn ensemble/grŵp (rhaid bod o leiaf munud o hyd).
Rhaid paratoi lleiafswm o ddau ddarn. Cyfanswm hyd berfformiadau: 4-6 munud.
Mae'n rhaid i un o'r darnau a berfformir fod yn gysylltiedig â maes astudiaeth o ddewis y dysgwr.
Nid yw'n ofynnol gallu chwarae ar offeryn yn y cwrs yma: gallech ganu yn unig yn yr arholiad ymarferol. Disgwylir i'r safon perfformio fod yn Gradd 3 neu uwch.
Mae athrawon teithiol peripatetig yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol er mwyn eich cynorthwyo i baratoi ar gyfer yr arholiad yma, yn ogystal cewch gefnogaeth yr athrawon dosbarth.
Nodiadau Rhaglen (5%)
Rhaid creu nodiadau rhaglen ar gyfer un o'r darnau a ddewiswyd ar gyfer y perfformiad.

Uned 2: Cyfansoddi (35%)
Sgiliau Cyfansoddi (30%)
Yn ystod y cwrs rhaid i'r ymgeisydd gyfansoddi 2 ddarn gwrthgyferbyniol sydd 3-6 munud o hyd gyda'i gilydd.Mae'n rhaid i un o'r cyfansoddiadau fod yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Mae'r ail gyfansoddiad yn gyfansoddiad rhydd. Bydd y cyfansoddiadau yn cael eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol. Mi fydd cyfle yn y gwersi i weithio ar eich cyfansoddiadau a chael cymorth ac arweiniad gan yr athrawon.
Gwerthuso cyfansoddi (5%)
Rhaid creu gwerthusiad o'r darn a gyfansoddwyd fel ymateb i friff a osodwyd gan CBAC.

Uned 3: Gwerthuso (30%)
Arholiad: Papur Gwrando (Mehefin Blwyddyn 11) 1 awr
Yma, rhaid dadansoddi a gwerthuso cerddoriaeth gan ddefnyddio terminoleg gerddorol.
Bydd y cwestiynau wedi eu seilio ar 4 maes astudiaeth:

- Ffurfiau a Dyfeisiau Cerddorol
- Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble
- Cerddoriaeth i Ffilm
- Cerddoriaeth Boblogaidd

Mi fydd dau o'r wyth cwestiwn yn seiliedig ar gerddoriaeth a astudir yn y dosbarth, sef gweithiau gosod a osodwyd gan CBAC.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae Cerddoriaeth TGAU yn llwybr naturiol i mewn i Lefel UG a Safon Uwch Cerddoriaeth, a hefyd yn llwybr addas ar gyfer disgyblion sydd yn greadigol, yn mwynhau gweithio mewn timau, sydd yn mwynhau Perfformio ar offeryn neu canu, ac sydd yn mwynhau gwrando ar ystod eang o gerddoriaeth.

# MUSIC

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

This course is only available through the medium of Welsh.
Three skills will be assessed:
·Appraising 30%
·Performing 35%
·Composing 35%

## Assessment Details / Method

Unit 1: Performing (35%)
Performing Skills (30%)
A practical examination that is assessed internally and moderated externally. The candidate will have to:
·Sing or play a solo part and
·Sing or play a part as a member of an ensemble/group (this performance must last at least 1 minute).
Students must prepare a minimum of two pieces. Both pieces must last between 4-6 minutes.
One of the pieces must link to an area of study.
Students are able to complete the Performing aspect using their voices alone: they do not have to play an instrument. Grade 3 or above is the expected standard.
We have fantastic peripatetic teachers in school each week to help with the preparation for the Performance aspect of the subject.
Programme Notes (5%)
Students must create programme notes on one of their performance pieces.

Unit 2: Composing (35%)
Composing Skills (30%)
During the course, the candidate will have to compose 2 contrasting pieces with a total playing time of 3-6 minutes.The compositions will be assessed internally and moderated externally. One of the pieces must be in response to a brief set by WJEC. The second composition is a free composition for which learners set their own brief. There will be ample opportunity for the students to work on their compositions in class, under the guidance and supervision of the teachers.
Evaluating composition (5%)
Pupils must produce an evaluation of the piece composed in response to a brief set by WJEC

Unit 3: Appraising (30%)
Examination: Listening Paper (June Year 11) 1 hour.
In this examination, the candidate will be analysing and evaluating music using musical terminology.
The questions will be based on 4 areas of study:
·Musical Forms and Devices
·Music for Ensembles
·Film Music
·Popular Music
Two of the eight questions will be based on prepared extracts (set works) set by WJEC.

## Progression Routes / Careers

Music GCSE is a natural route into AS and A Level Music and is also a natural route for students who are creative and enjoy working in teams, who enjoy Performing on an instrument or singing. The course is also ideal for students who enjoy extensive listening to Music.

# DAEARYDDIAETH

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

Mae TGAU Daearyddiaeth CBAC yn mabwysiadu dull ymholi wrth astudio gwybodaeth, materion a chysyniadau daearyddol. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai addysg ddaearyddol alluogi dysgwyr i ddod yn feddylwyr beirniadol a myfyrgar drwy eu hannog i gymryd rhan weithredol yn y broses ymholi. Caiff y cynnwys ei drefnu yn seiliedig ar gwestiynau allweddol a dylid annog dysgwyr i ofyn eu cwestiynau daearyddol eu hunain. Mae gwaith maes yn agwedd hanfodol ar addysg ddaearyddol ac ar y cymhwyster hwn. Mae wrth wraidd y fanyleb hon a dylai athrawon gynnwys gwaith maes fel rhan annatod o unrhyw raglen astudio a lunnir ganddynt. Dylai dysgwyr gyfuno ac ehangu eu dealltwriaeth o gysyniadau daearyddol a ddysgir yn yr ystafell ddosbarth drwy ymwneud ag ymholiadau a gynhelir y tu allan i'r ystafell ddosbarth a thir yr ysgol.

## Dull / Manylion Asesu

Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster 83 marc
Adran A: Themâu Craidd
Dau gwestiwn ymateb i ddata strwythuredig yn asesu Thema Graidd 1 (Tirweddau a Phrosesau Ffisegol) a Thema Graidd 2 (Cysylltiadau Trefol-gwledig).
Adran B: Opsiynau
Un cwestiwn strwythuredig (o ddewis o ddau) yn asesu naill ai Thema 3 (Tirweddau a Pheryglon Tectonig) neu Thema 4 (Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth). Mae'r themâu hyn yn darparu mwy o ehangder i'r astudiaeth ychwanegol ar gyfer y cynnwys sy'n cael ei asesu yn y themâu craidd.

Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygu
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster 83 marc
Adran A: Themâu Craidd
Dau gwestiwn ymateb i ddata strwythuredig yn asesu Thema Graidd 5 (Y Tywydd, yr Hinsawdd ac Ecosystemau) a Thema Graidd 6 (Materion Datblygu ac Adnoddau).
Adran B: Opsiynau
Un cwestiwn strwythuredig (o ddewis o ddau) yn asesu naill ai Thema 7 (Materion Datblygu Cymdeithasol) neu Thema 8 (Sialensiau Amgylcheddol). Mae'r themâu hyn yn darparu mwy o fanylder i'r astudiaeth ychwanegol ar gyfer y cynnwys sy'n cael ei asesu yn y themâu craidd.

Uned 3: Ymholiad Gwaith Maes
Asesiadau di-arholiad 2 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster 44 marc
Yn Uned 3 mae gofyn i'r dysgwr ddarparu adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys tystiolaeth o'i ddealltwriaeth o'r broses ymholi a'i allu annibynnol i brosesu/cyflwyno data a chwblhau gwaith ysgrifennu estynedig. Rhaid ysgrifennu'r adroddiad mewn ymateb i gwestiynau penodol a osodir gan CBAC.

## Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae daearyddiaeth yn bwnc; cyfoes, cyffrous, a chynhwysfawr sy’n gallu arwain at amrediad o yrfaoedd ym meysydd gwyddonol a dynol e.e. peirianneg yr amgylchedd, cynllunio, tirfesur, gwaith yn y cyfryngau a llawer mwy, mae’r rhestr yn un ddi ben draw.

# GEOGRAPHY

## Examination Board - WJEC

### Course Summary

WJEC GCSE Geography adopts an enquiry approach to the study of geographical information, issues and concepts. It is based on the principle that geographical education should enable learners to become critical and reflective thinkers by engaging them actively in the enquiry process. Content is organised around key questions and learners should be encouraged to pose geographical questions of their own.

Fieldwork is an essential aspect of geographical education and of this qualification. It is placed at the heart of this specification and teachers should embed fieldwork within any programme of study that they create. Learners should consolidate and extend their understanding of geographical concepts learned in the classroom by engaging with enquiries conducted outside of the classroom and school grounds.

## Assessment Details / Method

Unit 1: Changing Physical and Human Landscapes
Written examination: 1 hour 30 minutes
40% of qualification 83 marks
Section A: Core Themes
Two structured, data response questions assessing Core Theme 1 (Landscapes and Physical Processes) and Core Theme 2 (Rural-urban Links).
Section B: Options
One structured question (from a choice of two) assessing either Theme 3 (Tectonic Landscapes and Hazards) or Theme 4 (Coastal Hazards and their Management). These themes provide additional breadth of study for the content assessed in the core themes.
Unit 2: Environmental and Development Issues
Written examination: 1 hour 30 minutes
40% of qualification 83 marks
Section A: Core Themes
Two structured, data response questions assessing Core Theme 5 (Weather, Climate and Ecosystems) and Core Theme 6 (Development and Resource Issues).
Section B: Options
One structured question (from a choice of two) assessing either Theme 7 (Social Development Issues) or Theme 8 (Environmental Challenges). These themes provide additional depth of study for the content assessed in the core themes.

Unit 3: Fieldwork Enquiry
Non-examination assessment: 2 hours 30 minutes
20% of qualification 44 marks
Unit 3 requires a written report from the learner, to include evidence of their understanding of the enquiry process and their independent ability to process/present data and complete extended writing. The report must be written in response to specific questions set by WJEC.

## Progression Routes / Careers

Geography is a contemporary, exciting, and comprehensive subject that can lead to a range of careers e.g. environmental engineering, planning, surveying, media work and many more. The list is endless.

# DRAMA

## Bwrdd Arholi - CBAC

### Crynodeb o'r cwrs

